

## GWENYNEN GWENT A'R GÂN WERIN

Pleser yw diolch i Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, am y gwahoddiad caredig i draddodi Darlith Goffa Hedley Gibbard eleni. Mae'n gyfle i gydnabod cyfraniad pwysig ac arloesol Mr. Gibbard i fyd cyfieithu yng Nghymru, agwedd sydd wedi magu cymaint o bwysigrwydd yn y gymdeithas sydd ohoni. Mae'n braf gweld bod rhai o aelodau'r teulu wedi gallu ymuno â ni a chroeso arbennig iddynt hwythau. Diolch hefyd i Berwyn Prys Jones am gadeirio'r sesiwn ac i Ceri Anwen am delyna ar fy rhan.

Mae'n siŵr y bydd Gwenynen Gwent neu Arglwyddes Llanofer, yn cael cryn sylw yn ystod yr eisteddfod arbennig hon ond gobeithio y bydd y trywydd arbennig a ddewiswyd yn golygu cyflwyno agweddau na fydd siaradwyr eraill yn eu trafod.

Cyhoeddwyd cyfrol dra arbennig o ganeuon gwerin yn 1844, cyfrol yn dwyn y teitl *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*. Maria Jane Williams o Aberpergwm yng Nglyn Nedd oedd yn gyfrifol am gyhoeddi'r gyfrol, cyfrol a seiliwyd i raddau helaeth ar y casgliad a fu'n fuddugol yn un o eisteddfodau Cymreigyddion Y Fenni yn 1837. Hanes y gyfrol honno sy'n sail i'r cyflwyniad hwn heddiw. Yn y lle cyntaf hoffwn dynnu sylw at ddau osodiad sy'n digwydd ar dudalen flaen y gyfrol. 'Dedicated By special Permission to Her Majesty The Queen' meddir cyn nodi'r teitl yn llawn, ac yn dilyn y teitl ceisir crynhoi union bwyslais y gyfrol drwy ddweud fod yma gasgliad o 'Original Welsh Melodies, hitherto unpublished --- to which are added the words usually sung thereto'. Mae i'r ddau osodiad arwyddocâd arbennig a cheisir egluro paham drwy olrhain y cefndir i'r casglu a'r cyhoeddi.

Yr alaw agoriadol yw Triban Morganwg ('Glamorgan Triplet') ac yn nodiadau'r golygydd dywedir: 'This air is commonly sung in Glamorganshire, with a variety of words, to the Harp, which has from time immemorial been a favourite instrument of the Celtic race'. Hynny yw, dewisodd y golygydd ddau bennill ar gyfer eu cyhoeddi er bod amrywiaeth gyfoethog o dribannau wedi'u diogelu ar lafar gwlad gan werinwyr y cyfnod. Wele'r ddau bennill a gyhoeddwyd:

Tri pheth sy'n cwnnu 'nghalon,  
Bod gennyf arian ddigon,  
Cael wybren Hâf yn dêg uwch ben,  
A gweled Gwen lliw'r hinon.

Mae'r gwyntoedd yn gostegu  
Mae pawb yn myn'd i gysgu;  
Mae mab yn d'aros yn y llwyn  
Y Feinir fwyn lygeittu.

Ceir copïau o'r ddau driban yn un o lawysgrifau Iolo Morganwg (1) a chan fod y casglydd wedi gohebu â Taliesin Williams, ab Iolo, wrth iddi baratoi'r gyfrol, mae'n bur debyg mai o'r fan honno y cafwyd y penillion. Ac eto, ni chyhoeddwyd y penillion yn union fel y gwelir hwy yn llawysgrifau Iolo am fod mân newidiadau i'w gweld yn y llinell olaf yn y ddau bennill. 'A chusan gwen lliw'r hinon' a geir gan Iolo ac mae'n defnyddio'r ffurf dafodieithol 'cotten' yn lle'r ffurf fwy llenyddol 'meinir' gan roi 'Y gotten fwyn lygeittu'. Hynny yw, wrth olygu, ceir awgrym fod y casglydd

wedi penderfynu newid ffurfiau tafodieithol yn ôl y galw ac amrywio'r testun hefyd yn ôl ei chwaeth bersonol. Mae'n amlwg y byddai ystyried disgwyliadau'r gynulleidfa Victoriaidd yn ffactor yn y gwaith golygyddol er y byddai penillion ac ymadroddion eraill, bid siŵr, yn fwy o her i barchusrwydd yr oes na'r pechadur o air 'cusan' yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, wrth dynnu sylw at fesur y triban roedd Maria Jane Williams yn tynnu sylw, ar yr un pryd, at yr hen arfer boblogaidd o ganu i'r ychen ac o ymgasglu gyda'r hwyr wedi oriau gwaith i fwynhau adloniant byrfyfyr. Yn wir, roedd i'r triban le amlwg yn 'heddwch huawdl' y byd amaethyddol ym Mro Morgannwg cyn i'r chwyldro diwydiannol chwalu'r hen drefn a pheri i gynifer o'r gweithwyr ddilyn y dorth yn y Blaenau.

Afraid pwysleisio fod y triban, felly, yn arddangos yr un nodweddion ag unrhyw gân werin ac i'r mesur ddibynnu am genedlaethau ar brosesau cynhaliol y traddodiad llafar. Roedd cysylltiad agos rhwng y triban â'r broses o aredig gydag ychen, oes y Cathreiwyr, sef y gwerinwr a fyddai'n arwain yr ychen ac yn canu iddynt. Hyd yn oed ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd cyhoeddi gwahanol gasgliadau o dribannau ac er bod cofnodi a chyhoeddi wedi diogelu'r cyfryw benillion, roeddent erbyn hynny yn gyfansoddiadau alltud, yn bodoli'n annibynnol ar y sefyllfa a roes fod iddynt yn y lle cyntaf. Wrth i'r chwyldro diwydiannol ddylanwadu ar strwythur y cymunedau amaethyddol, defnyddiwyd y triban drachefn mewn cyd-destunau newydd yn y Blaenau. Yng ngeiriau G.J. Williams : 'Canfyddir ynddynt, mi gredaf, un o'r pethau sy'n nodweddu gwaith Iolo ei hun, sef cariad mawr at Forgannwg a'i phethau - pentrefi gwyngalchog y Fro, hen gartrefi'r Blaenau, rhadlonrwydd a llawenydd a gwarineb'. (2) Ac eto i raddau helaeth, tuedd i gysylltu'r triban â'r byd cynddiwydiannol hwnnw pan oedd ychen o hyd dan yr iau a dyna yw byrdwn sylwadau Cadrawd wrth iddo geisio adfeddiannu naws y cyfnod hwnnw yn ei ymdriniaeth â'r hen Forgannwg : 'These 'tribanau' have the real merit of presenting to our minds an unsophisticated picture of pastoral life in Glamorgan before the advent of the modern system of farming. They are redolent of the soil from whence they sprang, and have in them the very flavour of the life and manners of the period they belong to'. (3)

Proses hollol naturiol oedd i'r triban, fel y gân werin hithau, grwydro, a'r crwydro cymunedol hwnnw yn creu cronfa o amrywiadau o ran mân newidiadau testunol a thafodieithol – newid gair, cystrawen neu enw yn ôl y galw ac yn ôl mympwy neu blwyfoldeb golygyddion mewn cyfnod diweddarach. Mae'n briodol nodi hefyd na ellir cyfeirio at unrhyw un fersiwn safonol, gydnabyddedig yn ystod cyfnod y trosglwyddo llafar am mai proses organig oedd honno. Gellir cyfeirio, er enghraifft at driban a gofnodwyd yn wreiddiol gan Iolo Morganwg :

Yn Saint-y-Brid mae 'nghariad,  
Yn Saint-y-Brid mae 'mwriad,  
Yn Saint-y-Brid mae merch fach lân,  
Os caf hi o flân y 'ffeirad. (4)

Ond crwydro fu hanes y triban i ardal Pontypridd ac i gyffiniau Castell-nedd, yn benodol i Bont-rhyd-y-fen. 'Ym Mhont-y-pridd mae mwriad' yw llinell agoriadol un fersiwn a'r llall yn cychwyn 'Yn 'Rhydyfen mae nghariad'. Gellir synhwyro, felly, fod y trosglwyddo llafar yn creu corff o amrywiadau diddorol sy'n adlewyrchu'r modd y byddai penillion llafar gwlad yn cael eu mabwysiadu gan wahanol gymunedau, nifer ohonynt yn dilyn rhyw batrymau neu fformiwlâu poblogaidd megis

'Tri pheth sy'n cwnnu 'nghalon' neu 'Mi welais ferch eleni'/'Mi welais ferch o'r Ystrad'.

Er mai enghraifft ddigon diniwed yw gweld Maria Jane Williams yn cyfnewid y gair 'gweled' am 'cusan', mae'r egwyddor yn un a dynnodd sylw nifer o gasglwyr diweddarach wrth iddynt synhwyro fod proses o saniteiddio wedi digwydd yn hanes penillion llafar gwlad wrth i'r geiriau adael llwyfannau'r byd gwerinol a chael eu cyflwyno i gynulleidfa lawer ehangach mewn gwahanol gasgliadau cyhoeddedig. Hynny yw, byddai golygyddion diwyd a pharchus wedi cyflawni gwaith sensora digon Anghydfurfiol ei naws cyn bod cân neu driban yn ymddangos mewn casgliadau safonol. 'It had long been known to editors of songs from the 'peasantry'' meddai James Reeves, '--- that while the tunes were often of rare beauty and purity, the words were far from acceptable to the taste of the polite world. --- Despite the efforts of puritans to suppress all this, it had persisted; and the evangelical churches in the nineteenth century had combated, or at least frowned on, the public expression of anything unfit for a choir supper'. (James Reeves, *The Idiom of the People*) (5) Wrth reswm, byddai unrhyw fersiwn a ystyrir braidd yn amheus ei phwyslais yn cael ei diystyru neu ei diwygio gan olygydd parchus fel nad oes gennym o ganlyniad y fath benillion mewn cyfrolau cyhoeddedig. Ac eto, mae ambell bennill wedi goroesi sy'n rhoi i ni syniad o'r math o hiwmor gwerinol a fyddai'n apelio at gynulleidfa oedd llai sidêd eu hagwedd. Mewn triban a gofnodir ar ddalen rydd yn un o lawysgrifau Cadrawd, digwydd cyfeiriad at bechadur o air sef y ffurf 'tîn' sydd yn adlewyrchu parchusrwydd golygyddol y cyfnod :  
'Colloquial Welsh but very vulgar. Perhaps not fit for printing. I heard this about 30 years ago

Fi gwnas acha bora –

Fi wnetho fargan ddech, -

Fi brynas fochyn gan ryw ddyn –

A thwll ei din yn isha.' (6)

Hyd y gwelais, ni chyhoeddwyd y triban 'vulgar' hwn, o leiaf yn y ffurf amrwd hon, am na fyddai golygyddion yn fodlon tramgwyddo'r canonau moesol y disgwylid iddynt eu cydnabod a'u parchu. Ac eto, ceir fod Llewellyn Evans, mab Cadrawd, flynyddoedd yn ddiweddarach, yn cyhoeddi dau amrywiad gwahanol ar y triban a ystyrir yn ei ffurf gynharach yn 'not fit for printing'. Dylid nodi yma nad yr un nam corfforol sy'n cael sylw, a'r fersiynau di-dîn yn fwy derbyniol :

Fi godais ar rhyw fora',

Fi nitho fargan ddech,

Fi brynas ych a gwddwg brith,

A'i lygad chwith yn eisa'.

Fi gwnas acha bora',

Fi nitho fargan ddech,

Fi brynas fochyn yn Brynwhith

A'i lycad with yn isha'. (7)

Os ystyrir y broses olygyddol ar un olwg yn negyddol ei phwyslais drwy amddifadu penillion o'r ieithwedd werinol ffraeth a fyddai'n her i gynulleidfa oes Victoria, rhaid derbyn yr un pryd fod tribannau eraill wedi llwyddo i ddiogelu amrywiaeth o hen eiriau ac ymadroddion a oedd yn nodweddu tafodiaith draddodiadol Bro

Morgannwg. Diogelwyd nifer helaeth o hen ddywediadau lliwgar ac ambell gystrawen a fyddai'n rhwym o ddenu sylw'r sawl sy'n ymddiddori yn nhafodiaith y rhanbarth. Ystyrier y triban canlynol, er enghraifft :

Mi godais gariad newydd  
Mi rois yr hen i fynydd  
Mae'n promis cwrdd, os ceidw'i gair  
Wrth Eglwys Fair y Mynydd. (8)

Bu tuedd dros y blynyddoedd i 'gywiro'r' ffurf 'rhoi i fyny' fel cyfieithiad llythrennol o'r Saesneg 'to give up'. Y gwir amdani yw bod y ffurf hon wedi'i derbyn ers tro byd ar lafar ym Morgannwg a chofiaf i'r Athro T.J. Morgan adrodd wrthyf un tro fel y byddai ei dad yn ei alw pe bai'n gweithio'n hwyr y nos gyda'r geiriau, 'Rho fynydd a der i'r gwely'. Ychwanegodd mai 'rhoi'r gorau i' yw'r gystrawen sydd wedi'i benthg o'r Saesneg, a hynny o'r hyn sydd ar lafar mewn ambell ran o Loegr sef 'to give it best'. Pe bai angen cadarnhad pellach fod y gystrawen yn gynhenid Gymraeg, gellid troi at emyn Elfed sy'n cychwyn gyda'r geiriau 'Arglwydd Iesu, dysg im gerdded'. (Caneuon Ffydd : Rhif 710) Wele'r ail bennill :

Araf iawn wyf fi i ddysgu,  
amyneddgar iawn wyt ti;  
mae dy ras yn drech na phechod –  
aeth dy ras â'm henaid i;  
paid rhoi 'fyny  
nes im gyrraedd trothwy'r drws.

Mae'r tribannau'n cyflwyno, felly, amrywiaeth o ffurfiau hynod ddiddorol er bod dilyn y trywydd hwnnw y tu allan i faes y drafodaeth heddiw. Ac eto, mae'n briodol cofio fod modd sôn am ddau fath o gynulleidfa wrth drafod hanes penillion a chaneuon llafar gwlad. Yn y lle cyntaf, gellid cyfeirio at y gwerinwyr hynny a fyddai'n mwynhau adloniant byrfyfyr gyda'r hwyr, cynulleidfa a fyddai'n hollol gyfarwydd â'r ieithwedd a'r hiwmor gwledig. Ar y llaw arall, wrth baratoi deunydd ar gyfer rhyw gyfnodolyn parchus, byddai'n rhaid golygu'n ofalus a dileu neu addasu unrhyw bennill amheus a ystyrid yn her i barchusrwydd yr oes. Hynny yw, roedd yna bris amlwg i'w dalu wrth ddilyn unrhyw broses o olygu a chyhoeddi

Mae troi at hanes cyhoeddi'r *Ancient National Airs* yn golygu bod angen olrhain natur y berthynas a ddatblygodd rhwng gwahanol aelodau cylch Llanofar ac yn benodol rhwng Arglwyddes Llanofar neu Gwenynen Gwent, a'r casglydd Maria Jane Williams. Mae'r prif gymeriadau, wrth reswm, yn haeddu sylw. Dechreuir gyda'r Arglwyddes ei hun a aned yn Llanofar yn 1802. Ei henw iawn oedd Augusta Waddington a daethai ei rhieni, a oedd yn bobl busnes hynod o lwyddiannus, o Berkshire i Lanofar a phrynu'r stad ryw ddeng mlynedd cyn geni Augusta. Mae Prys Morgan, yn ei ddarlith ar 'Gwenynen Gwent', yn dangos pa mor allweddol oedd cysylltiadau teuluol wrth adrodd ei hanes hi ac yn enwedig o gofio magwraeth arbennig ei mam, Georgina Ann Port : 'Roedd Georgina wedi'i chodi gan ei hen fodryb Mary Granville, Mrs. Delany, cyfeilles fynwesol i wraig Sior III, y Frenhines Charlotte. --- trwy Mrs. Delany felly roedd y teulu Waddington ar delerau da â'r teulu brenhinol, ac ar hyd ei hoes hirfaith byddai Gwenynen Gwent yn gohebu â thywysogion a thywysogesau fel 'taen nhw'n bobol drws nesa, ac yn ymrwbio nid yn unig yn nheulu brenhinol Lloegr ond teuluoedd coronog y cyfandir yn ogystal.' (9) O

geisio egluro ei diddordeb arbennig yn y Gymraeg, sonnir am ei harfer o fynd allan i farchogaeth gydag un o wastrodion ei thad ac o droi i mewn i wahanol fythynnod ar y stad: 'She ran in and out of the cottages and farms of her father's tenants, all of whom were Welsh-speaking, and most were monoglot Welsh, from whom she picked up fluent colloquial Welsh'. (10) Dyna eiriau Maxwell Fraser (Mrs. Edgar Phillips), y prif awdurdod ar hanes yr Arglwyddes a'i theulu, er ei bod yn pwysleisio yn benodol ddylanwad Elizabeth Brown Greenly yn y cyd-destun hwn ynghyd â'i chysylltiad hithau â 'Carnhuanawc', y ddau'n amlwg yn y mudiad Cymreigyddol yn y rhanbarth hwnnw. Roedd Frances, chwaer Augusta, yn un mlynedd ar ddeg yn hŷn na hi a phan oedd y teulu ar wyliau yn Rhufain yn 1816, priododd ag Almaenwr o'r enw Charles Bunsen a ddaeth yn y man yn llysgennad Prwsia yn Lloegr. Drwy ddylanwad y gangen hon o'r teulu, flynyddoedd yn ddiweddarach, y crëwyd cysylltiad rhwng Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni â Llydaw a fu'n gyfrwng i hybu astudiaethau ieithegol. Mae'n ddiddorol nodi y byddai Bunsen yn symud mewn cwmni digon dethol a'i fod wedi magu cysylltiad cymdeithasol â dynion megis y Tywysog Albert, Carlyle, Gladstone a Thomas Arnold.

Roedd teulu Benjamin Hall, gŵr yr Arglwyddes, yr un mor gefnog a dylanwadol. Daethai'r teulu o Sir Benfro yn y ddeunawfed ganrif pan benodwyd Dr. Benjamin Hall y cyntaf yn Ganghellor Eglwys Llandaf ond drwy ei ddiddordeb ariannol yng nghwmni Camlas Morgannwg bu cysylltiad rhyngddo a Richard Crawshay o Gyfarthfa, Merthyr. Y canlyniad fu i Benjamin Hall yr ail briodi â merch Crawshay, priodas a fu'n gyfrwng i ychwanegu'n ddramatig at gyfoeth y teulu o ran arian a thiroedd. O ganlyniad, bu'n bosibl iddo gael ei ethol yn aelod seneddol, dros Totnes i ddechrau ac yn ddiweddarach dros Forgannwg, ac yn Llundain yn 1802 y ganed eu mab Benjamin Hall y trydydd, sef gŵr Augusta. Wele grynodedb Prys Morgan o'i yrfa wleidyddol: 'Roedd gan Benjamin III y dewis o fod yn ddiwydiannwr mawr fel ei dad-cu, ond ar hyd ei oes dewisodd ganolbwyntio ar ei yrfa wleidyddol, yn aelod dros Fynwy, wedyn yn aelod dros St. Marylebone yn Llundain, yn farwnig yn 1838, yn aelod o lywodraeth Arglwydd Palmerston yn y pumdegau, yn bennaeth bwrdd yr adeiladau yn y pumdegau, ac yn y pen draw yn Arglwydd Llanofar o Aber-carn. Ef oedd yn gyfrifol am orffen adeiladu Palas Westminster ac ar ei ôl ef yr enwyd y gloch a'r tŵr Big Ben.' Priodwyd y ddau yn 1822 ac er gwaethaf cefndir Benjamin, ei fagwraeth a'i addysg Seisnig yn Westminster a Choleg Eglwys Crist yn Rhydychen, dangosai barch mawr at ymdrechion ei wraig dros y Gymraeg a'i diwylliant.

Un o aelodau cynharaf cylch Llanofar oedd Elizabeth Brown Greenly a aned yn 1771, yn yr un flwyddyn â Mrs. Waddington, mam Augusta. Roedd yn gefnogol iawn i'r Gymraeg, yn fenyw 'who in her own quiet way, did an enormous amount to encourage the Welsh language and literature, and more particularly, Welsh music'. (11) Roedd hi'n gerddores o gryn allu ac yn hyddysg mewn nifer o ieithoedd gan gynnwys y Gymraeg. Priododd yn hwyr mewn bywyd pan oedd yn 39 mlwydd oed â Syr Isaac Coffin ond bu'n ddewis annoeth. Ryw bedwar mis ar ddeg ar ôl iddyn nhw briodi aeth i ymweld â ffrindiau a bu'n absennol am saith mlynedd! Ymddengys, fodd bynnag, ei bod yn ysbrydoliaeth i'w cyd-foneddigion 'and there is little doubt her enthusiasm for everything Welsh was the inspiration of many of the Anglicized gentry of the Marcher Country to support the local *eisteddfodau*, as they undoubtedly did.' (12) Priodol cydnabod iddi hefyd noddi Iolo Morgannwg o 1806 ymlaen gan gynnig iddo swm o arian yn flynyddol.

Trown at y teulu olaf sydd dan sylw heddiw, sef teulu Maria Jane ac Ann Williams o Aberpergwm yng Nglyn Nedd. Roedd Rees Williams, y tad, wedi etifeddu cyfoeth Aberpergwm ym mlynnyddoedd cynnar y 19eg ganrif, ac wedi gweld cwblhau Camlas Castell-nedd yn 1803, ac yntau'n gyfrandaliwr, gwelodd yn eglur fod y posibiladau masnachol yn bur sylweddol. Roedd degawd cyntaf y ganrif yn gyfnod o ymsefydlogi er bod Rees yn ddigon effro i sylweddoli fod yna fanteision amlwg o allu rheoli'r cwmnïau hynny a oedd yn gyfrifol ar y pryd am gloddio'r mwynau. Y canlyniad fu i'r teulu ennill cryn gyfoeth, datblygiad a roddodd gyfle i'r tad adfeddiannu anheddau ac adnoddau neu i greu cytundebau mwy proffidiol. Mynnwyd fod y plant yn derbyn addysg o safon. Aeth William yr hynaf i Redland a Harrow, Rees ei frawd iau yntau i Fryste i ysgol y Parch. Ddoctor Jones, a Thomas i'r un ysgol yn wreiddiol cyn symud i Eton. Yn ddiweddarach, derbyniodd Jane ac Ann addysg yn Abertawe. Trawyd y tad yn wael ac aeth i Lundain gan aros yn Southampton Row, Russell Square. Yn y brifddinas gallai fod o fewn cyrraedd i driniaeth arbenigol ond bu farw ym mis Medi 1812 yn 57 oed. Wedi Brwydr Waterloo, roedd yn bosibl i deithwyr cefnog gychwyn unwaith yn rhagor ar eu teithiau uchelgeisiol drwy wledydd Ewrop. Manteisiodd William ar ei gyfle ond ni ddewisodd ei gyfyngu ei hun i Ewrop. Dechreuodd ei 'Grand Tour' tua'r flwyddyn 1815 gan deithio i gyfandiroedd Ewrop, Asia ac Affrica a chan adael yr ail frawd Rees, a oedd mae'n debyg yn ddigon hapus i weithredu fel stiward i'w frawd hŷn, i fod yn gyfrifol am weinyddu'r stad. Ni ddychwelodd tan tua'r flwyddyn 1829! Os oedd cyfrifoldebau newydd yn wynebu Rees, roedd yr amodau teuluol wedi cynnig her o fath gwahanol i'r ddwy chwaer. Mewn cyfnod o gymdeithasu proffesiynol, byddai'n anodd i Ann a Jane ymuno â'r cylchoedd crachaidd yn Llundain a mannau eraill heb gefnogaeth eu brawd hynaf gan nad oedd y fam yn debygol o fod yn hyderus yn y math hwnnw o gwmni. Ond, yn ffodus, gwelwyd fod ffactorau eraill o blaid y chwirydd: 'Had it not been for the auspices of Lady Llanover --- and the benefit of Jane's skill on the harp and the sweetness of her voice, which gave an entrée, the two girls may have found their social lives very restricted'. (13) Hynny yw, datblygodd y berthynas rhwng y ddau deulu pan oedd merched Aberpergwm yn gymharol ifanc ac mae'n amlwg i Arglwyddes Llanofer agor gwahanol ddrysau cymdeithasol ar eu cyfer.

Cawn droi, bellach, at achlysur hollol benodol ac arwyddocaol yn hanes cylch Llanofer, pan ddaeth y pedair boneddiges a gyflwynwyd eisoes at ei gilydd i swpera yng nghartref Augusta yn Llanofer. Mewn llythyr dyddiedig 28 Tachwedd 1836 cawn fersiwn hynod fanwl Y Foneddiges Brown Greenly o'r achlysur: 'The youngest Miss Jane (Williams) has a fine voice, and is very musical. She sang to us several beautiful airs which had learned of an old woman in Glamorganshire hills now 70 years old, but still having a good voice – she learned them of her mother, who lived to 95 and so traced them back for centuries transmitted orally, never written down. --- Miss Jane Williams intends to have them written down, for she knows no one who sings them besides this one old woman. --- There are Welsh words to them all, and each has its separate title. One is called Aderyn Pur (The pretty bird). Miss Jane W. said she believed she knew 100 of them'. (14) Dyma Arglwyddes Llanofer, y Foneddiges Greenly a'r ddwy chwaer o Gwm Nedd gyda'i gilydd yn Llanofer a Maria Jane yn diddanu'r cwmni gyda'i detholiad o ganeuon traddodiadol. Er mor fychan oedd y cwmni y noson honno, roedd yna gynulleidfa lawer ehangach yn aros y caneuon yn y man. Mae'n amlwg i'r aelodau hyn o gylch Llanofer weld potensial arbennig y math o ganeuon a gyflwynwyd gan Maria Jane a bu raid gweithredu. Ymhen blwyddyn trefnwyd cystadleuaeth yn Eisteddfod Cymreigyddion Y Fenni am y casgliad gorau o

ganeuon traddodiadol, 'for the best collection of original unpublished Welsh airs, with the words as sung by the peasantry of Wales'. Ni raid synnu, wrth gwrs, o glywed enwau'r rhai a fu ynghlwm wrth y datblygiad arbennig hwn. Gallai'r Arglwyddes fanteisio ar ei chysylltiadau fel un o brif gefnogwyr eisteddfodau'r Fenni a hi mae'n siŵr a fu'n gyfrifol am gynnwys y gystadleuaeth yn rhaglen yr eisteddfod honno; Y Foneddiges Greenly a gynigiodd y fedal a'r wobr o ddwy gini; a chasgliad Maria Jane Williams a ddyfarnwyd yn orau yn y gystadleuaeth.

Rhwng 1837 ac 1844 bu'r casglydd wrthi'n ddiwyd yn rhoi trefn ar ei deunydd ac yn cynllunio'r gyfrol ar gyfer ei chyhoeddi. Am fod casgliad o bapurau a llythyrau perthnasol ar gael yn y Llyfrgell Genedlaethol, mae modd olrhain hanes y gyfrol a phwyso a mesur, yn weddol fanwl, hyd a lled y gwaith golygyddol. Bu cryn ddadl ynglŷn â natur y gyfrol a'r maen tramgwydd oedd y cymal a ychwanegwyd at y cyfeiriad at 'Welsh airs' sef 'with the words as sung by the peasantry of Wales'. Roedd tuedd yn y cyfnod mewn gwledydd eraill megis Yr Alban ac Iwerddon i anwybyddu'r geiriau traddodiadol a chomisiynu rhyw benillion newydd a fyddai'n digwydd cydsymud â'r alaw. Roedd Gwenynen Gwent yn ymwrthod yn llwyr â'r fath athroniaeth ac yn benderfynol o gael ei ffordd, fel arfer drwy ddefnyddio trydydd person mewn dull digon cyfrwys. Dengys cyfres o lythyrau hynod ddadlennol pa mor sylfaenol oedd y gwahaniaeth a ddatblygodd rhwng syniadaeth y naill foneddiges a'r llall, y casglydd yn gyndyn i newid safbwynt a'r Arglwyddes yn ystrywgar benderfynol o ennill y dydd. Er enghraifft, mewn llythyr dyddiedig 24 Mawrth a ysgrifennwyd gan Augusta at Taliesin Williams (Ab Iolo (Morganwg)), gwelir natur ei chwyn :

'Miss Wms induced me to take a good deal of pains to obtain the Queen's permission to dedicate a Vol. of her MSS collection of Welsh Melodies – I did so on *express promise* – *Welsh* words should be added and her Majesty gave *leave* for Miss W. to dedicate *Welsh Airs with Welsh words* to Her --- Since this – strange to say, every effort has been made under Mr W's influence to induce me to be satisfied without *any* Welsh words, on the plea they could not be translated to be readable, and that without translation they would not sell. I stood to my ground *the permission asked and given* – 'Welsh music – *with Welsh words*'. (15)

Roedd y dadlau yn mynd i barhau. O ystyried pa mor benderfynol ei hagwedd y bu raid i Augusta fod, gellid casglu mai yn y gerddoriaeth yn bennaf y gorweddai diddordeb Maria Jane ac na fyddai cyfrol yn cynnwys geiriau Saesneg wedi'i phoeni'n ormodol. Soniwyd bod cyfrolau o'r fath yn ffasiynol rai blynyddoedd ynghynt. Ni fyddai unrhyw gynsail anghyfleus o'r fath yn debygol o ddylanwadu o gwbl ar yr Arglwyddes, a blwyddyn gron yn ddiweddarach yr un oedd byrdwn ei chenadwri mewn llythyr at Ab Iolo a'r mynegiant yr un mor gadarn:

I will not trouble you further at present than to recall to your recollection the *promise you made me* of using all the influence you possess to induce Miss Williams (of Aberpergwm) to publish as many Welsh words to her airs as possible. --- My reason for writing *now* is that I have just heard from her announcing that she is going to London very soon, to publish her music. --- I must tell you *how annoyed* I shall be if words do not appear to the greater part, and you are the *only* person whose opinion will have *any weight*, for the simple reason that you alone can write the songs so as to

be fit for publication. This is all in *cyfrinach* but act promptly. I never mention that I communicate with you on this subject.' (16)

Gellid ychwanegu tystiolaeth debyg a gofnodir mewn gwahanol lythyrau megis y sylw diddorol a threiddgar, 'I know well the class Miss W. is most anxious to please in London'. (17) Yno, nid y geiriau Cymraeg, wrth reswm, a fyddai'n denu sylw bonedd y brifddinas. Ond gwelir drwy gyfrwng y casgliad o lythyrau a ddiogelwyd, fod gan yr Arglwyddes ddirnadaeth lwyrach o wendidau golygyddol y cyfnod nag a oedd gan y rhelyw o'i chyfoedion. Sylweddolai pa mor ddisynnwyr oedd anwybyddu'r geiriau traddodiadol Cymraeg a pha mor ddi-chwaeth fyddai cyfuno'r hen alawon cenedlaethol â barddoniaeth eilradd Saesneg. Ei nod oedd gweld cyfrol o alawon Cymreig ynghyd â geiriau Cymraeg gan osgoi, ar bob cyfrif, benillion a chyfieithiadau Saesneg ond gan gynnwys nodiadau eglurhaol yn ôl y galw.

O droi at y gân 'Ffoles Llantrisant' cawn gyfle nid yn unig i ddeall safbwynt yr Arglwyddes ond i werthfawrogi yr un pryd pa mor gadarn a di-ildio y gallai fod yn wyneb unrhyw wrthwynebiad i'w chynlluniau. Yn ôl y nodyn eglurhaol cafwyd y gân gan Iolo Morganwg. Ychwanegir : 'In the words of this song --- there is a playful spirit of banter, the Merry Girl enumerates her dairy utensils, and the stock of her farm yard, and concludes by quaintly observing to her lover that she has no time to attend to him'. (18) Wele'r geiriau a gyhoeddwyd :

Mae genny' stwc, a mae genny' hi'lydd,  
Mae genny' fuddai fychan newydd,  
Mae genny' ffansi fawr iawn i dy garu,  
Pe cawn i lonydd gan y diogi.

Mae genny' iar, a mae genny' geiliog,  
Mae genny' gywan felen fochog,  
Mae genny' ffansi fawr iawn i dy garu  
Pe cawn i lonydd gan y diogi. (19)

Wrth ystyried gosodiad a wnaed gan Ab Iolo yn un o'i lythyrau, rhaid bod y casglydd wedi holi ynglŷn â geiriau newydd i'r gân. Ymddengys na welodd Ab Iolo ychwaith apêl arbennig y gwreiddiol; i'r gwrthwyneb, ymddengys ei agwedd braidd yn ddilornus : 'Although not the next in order, I shall conclude with a stanza (my own attempt) instead of the one included, on 'Ffoles Llantrisant', for the other may as well be omitted'. (20) Wel gynnig Ab Iolo sydd yn ddigon anwerinaidd ac anniddorol :

Serch ydyw sail a serch ydyw sylwedd  
Pob peth sydd inni'n rhannu rhinwedd;  
Serch sydd a'r annerch tra mwyn a dymunol;  
Serch hardd ei agwedd, sydd yn fuddugol.

Ymddangosodd yr un pennill ym mhapurau'r golygydd (Aberpergwm 1326) yn llaw Tegid (y Parch. John Jones) a fu hefyd yn ceisio dylanwadu ar Maria Jane ar ran yr Arglwyddes, a theg tybied mai dyma'r pennill y bwriedid ei gyhoeddi. Arall oedd barn yr Arglwyddes a cheir y dystiolaeth berthnasol mewn dau lythyr a ysgrifennwyd o Lanofar at Ab Iolo ym mis Ionawr 1843, flwyddyn cyn cyhoeddi'r gyfrol :



I am delighted to hear Miss J.W. will insert those delightful Welsh Pastorals with the original words 'Mae genny stwc etc.' These are worth a fortune in themselves and ought to have at least two or three verses to sing with them. (21)

She often comes round after a time as about 'Mae gennyf stwc'. She quarrelled with me for saying they were 'the most valuable lines and words she had', and now she tells me of them as a *new acquisition* on your opinion and her Brother's. (22)

Dengys hyn oll pa mor rhagluniaethol oedd dylanwad yr Arglwyddes ar y broses olygyddol ac yma, pa mor llwyddiannus oedd ei thactegau er mwyn diogelu'r 'Welsh Pastorals' y mynnodd weld eu parchu a'u cyhoeddi. Hynny yw, yn groes i batrwm yr oes a dyheadau'r casglydd, dangosai barch anghyffredin tuag at y penillion gwerinol hynny a ddiogelwyd o genhedlaeth i genhedlaeth ar lafar gwlad.

Mae'r gyfrol gyhoeddedig, yn naturiol ddigon, wedi denu cryn sylw dros y blynyddoedd am mai yno y gwelir nifer o'n caneuon traddodiadol am y tro cyntaf mewn casgliad safonol. Mabwysiadwyd rhai caneuon megis 'Bugeila'r Gwenith Gwyn', a 'Y Ferch o'r Scer' gan y baledwyr a daethant yn bur boblogaidd wrth greu rhamant ar sail y cynnwys. Daeth 'Callyn Serchus' yn adnabyddus dan deitl newydd sef 'Y Ferch o blwyf Penderyn' a lluniwyd nifer o amrywiadau geiriol ar sail y penillion a nodwyd dan y teitl 'Y Ddafad Gyrnig'. Yr hyn a bwysleisir yma yw pa mor llesol oedd dylanwad Arglwyddes Llanofar yn ystod cyfnod y golygu am iddi weld yn glir beth oedd prif gyfrifoldeb y casglydd. O ganlyniad, diogelwyd gwahanol benillion a gysylltid gynt ag amrywiaeth o hen alawon traddodiadol, penillion a fyddai, heb ymyrraeth yr Arglwyddes, wedi diflannu'n llwyr.

Dylid nodi mai un agwedd ar weithgarwch Cylch Llanofar a drafodwyd heddiw a bod yr aelodau wedi cyfrannu at nifer helaeth o feysydd diwylliannol eraill mewn modd hynod effeithiol. 'The society', medd Maxwell Fraser, 'had achieved its aim in reviving interest in Welsh literature, music and history, it had been instrumental in the foundation of the Welsh Manuscript Society, and its work led eventually to the foundation of the Chair of Celtic at Oxford University, and the establishment of the National Eisteddfod as we know it today.' (23) Hynny yw, llwyddwyd i ymwneud ag amrywiaeth o wahanol agweddau ar fywyd diwylliannol y genedl fel go brin y gellir anghytuno â dyfarniad Fraser: 'It is a proud record for one small Provincial Society in a small nation like Wales'. Er mai bychan oedd Cymdeithas Cymreigyddion Y Fenni, ar un olwg, ni raid pwysleisio pa mor ddylanwadol oedd rhai o'i phrif gefnogwyr. Cof gennyf glywed yr Athro Hywel Teifi Edwards yn dweud un tro mewn darlith fod 'gan Arglwyddes Llanofar ddigon o 'clout' a digon o arian i fod yn od'. Ac eto, diolch am y wedd honno ar ei phersonoliaeth, yr odrwydd radical hwnnw a fu'n ddylanwad mor rymus dros y Gymraeg a'i phethau.

Roedd gan yr Arglwyddes, felly, ddigon o 'clout' i Maria Jane allu cyflwyno'r gyfrol i'r Frenhines Victoria. Am yr ail ddyfyniad agoriadol, 'Original Welsh Melodies --- to which are added the words usually sung thereto', nid na statws nac arian yr Arglwyddes yw'r allwedd i lwyddiant y gyfrol, ond ei gweledigaeth bersonol a'r hyder a ddangoswyd wrth fynnu arddel a pharchu geiriau traddodiadol hen alawon Gwent A Morgannwg.

## CYFEIRIADAU

1. Ll. G.C. 13, 152 A, 283 a 281
2. G.J. Williams, *Iolo Morganwg* (Caedydd, 1956), t. 64.
3. T.C. Evans (Cadrawd), 'The Folklore of Glamorgan', *Transactions of the National Eisteddfod of Wales* (Aberdâr, 1885) (Cardiff, 1887), t.186.
4. G.J. Williams, *op. cit.*, t. g4.
5. James Reeves, *The Idiom of the People* (London, 1958), t. 8.
6. Casgliad Cadrawd yn Llyfrgell Dinas Caerdydd, Llsgr. 2.330. Mae casgliad o 12 cyfrol i gyd a digwydd y cyfeiriad yn y bedwaredd gyfrol (63 oedd yr hen rif) mewn darn a ychwanegwyd rhwng tt. 21 a 22. Nid yw'r ychwanegiad yn llaw Cadrawd.
7. Amgueddfa Werin Cymru (A.W.C.) 1409/1, t. 76.
8. Tegwyn Jones (gol.), *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), Rhif 291.
9. Prys Morgan, 'Gwenynen Gwent', sef darlith a draddodwyd yn Y Babel Lân ddydd Gwener 5 Awst 1988 yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.
10. Maxwell Fraser (Mrs. Edgar Phillips), 'Lady Llanover and her Circle', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1968, Rhan 11, t.179. Hoffwn gydnabod fy nyled i'r ffynhonnell arbennig hon ac i ddarlith Prys Morgan lle ceir cymaint o dystiolaeth sylfaenol a diddorol.
11. Maxwell Fraser, *art.cit.*, t.172.
12. *Ibid.*, 173.
13. Elizabeth F. Belcham, *About Aberpergwm : The Home of the Williams Family in the Vale of Neath, Glamorgan* (Llandybïe, s.d), t. 57. Y gyfrol hon oedd ffynhonnell yr holl wybodaeth am hanes teulu Maria Jane Williams.
14. Maxwell Fraser, *art.cit.*, t. 186.
15. Ll.G.C. Llythyrau Ab Iolo, 228.
16. Ll.G.C. *Ibid.*, 245. Dyddiad llythyr yr Arglwyddes yw 25 Mawrth 1841.
17. Ll.G.C. *Ibid.*, 264.
18. *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844), t.79.
19. *Ibid.*, t. 24.
20. Ll.G.C. Llythyrau Ab Iolo, 838(a).
21. Ll.G.C. *Ibid.*, 264.
22. Ll.G.C. *Ibid.*, 265.
23. Maxwell Fraser, 'Sir Benjamin and Lady Hall at Home in the 1850's', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, XIV, Part 1 (1965-6), t. 293